No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); M. Evans (Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd A. Asbrey a J. Owen (Archwiliad Cymru).

## 218 CYHOEDDIAD -

Cyni fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 219 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

## 220 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 221 DIWEDDARIAD CHWARTER 4 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4 (Ebrill 2022 - Mawrth 2023).

Roedd yr Adroddiad Crynodeb Risg Corfforaethol (Atodiad A) yn rhoi trosolwg o'r holl risgiau corfforaethol yn y Gofrestr o ran eu sgôr cynhenid, effeithiolrwydd sgôr rheoli a sgôr gweddilliol ac yn rhoi amlinelliad o gyfeiriad y daith bresennol a'r rhagolwg.  Roedd hefyd yn cynnig dadansoddiad byr o'r materion risg sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â risgiau ar y Gofrestr.

Nodwyd bod 17 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr.  Yn ystod cyfnod Chwarter 4, roedd 6 risg wedi sgorio uchel, 3 risg yn ganolig-uchel a’r 1 risg oedd yn weddill wedi sgorio canolig-isel.  Cafwyd peth symudiad mewn statws risg yn ystod

pedwerydd chwarter y flwyddyn. Roedd statws risg uchel (sgôr risg o 12) y risg Prosiect Sero yn adlewyrchu'r amgylchiadau heriol yr oedd y Cyngor yn gweithredu ynddynt ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, roedd risg Brexit wedi gostwng i statws canolig (sgôr risg o 6).

O ran cyfeiriad y daith a ragwelid, disgwylid y byddai Diogelwch Gwybodaeth, Bregusrwydd Ariannol, Bregusrwydd y Farchnad, y Gweithlu, Prosiect Sero, Rheoli Galw a Chapasiti Gwasanaeth yn parhau i gynyddu dros amser. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r newid deddfwriaethol a diwygio llywodraeth leol, iechyd a gofal cymdeithasol integredig a risgiau Brexit yn parhau i leihau dros amser. Rhagwelid y byddai’r risgiau sy'n weddill ar y Gofrestr yn parhau'n sefydlog.

Cododd y Cynghorydd M. Hooper gyfres o gwestiynau, y cyntaf yn ymwneud â chyfeiriad y daith ac effaith pwysau cyllidebol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at Brosiect Sero a oedd â statws risg uchel iawn a holodd a ddylid diwygio'r statws i fod yn drychinebus o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant ac a oedd y risg statig yn dal yn briodol. Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd y risg o Brexit yn adlewyrchu materion cyfredol gan y byddai'r rhan fwyaf o feysydd yn cael eu cynnwys o dan risgiau eraill yn y Gofrestr.

Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol o ran bregusrwydd ariannol, bod y Cyngor yn rhagweld cynnydd mewn risg dros amser, a chydnabuwyd y byddai proses pennu cyllideb 2023/24 yn heriol dros ben a byddai adroddiad ar hynny yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet. Byddai cyllideb y flwyddyn i ddod yn heriol oherwydd pethau fel costau cynyddol cyflenwadau a chymhlethdod cynyddol pobl sy'n dod ger bron i dderbyn gwasanaethau'r Cyngor. Gan y byddai gosod cyllideb Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr yn nes, byddai gan y Cyngor well syniad o'r heriau ariannol sydd ar ddod. O ran Prosiect Sero, roedd y Cynghorydd Hooper yn gywir gan y byddai'r lefel nesaf ar y fframwaith risg yn drychinebus ac ar hyn o bryd ystyriwyd bod y risg yn uchel iawn, a fyddai mewn rhai ffyrdd yn cael ei wrthbwyso gan effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith ar gyfer ystod eang o weithgareddau. Felly, byddai angen i natur gynhenid y risg newid yn ogystal â gallu'r Cyngor i arfer rheolaeth er mwyn i'r statws newid i drychinebus. O ran yr argyfwng costau byw, bu llawer o drafod yn y Bwrdd Mewnwelediad a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol lle ystyriwyd bod y statws presennol yn gywir. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai cyfnod y gaeaf yn heriol i breswylwyr fel y byddai’r risg honno yn cael ei chadw dan lygaid craffu manwl. O ran Brexit, dwedodd y Cyfarwyddwr fod y Pwyllgor eisoes wedi awgrymu y byddai'r effeithiau'n cael eu mynegi drwy weddill y Gofrestr ond bod risg Brexit wedi parhau oherwydd bod rhai materion gwaddol o hyd. Er enghraifft, roedd rhai trefniadau masnachu yr oedd dal angen eu cwblhau ac roedd hynny'n dal i effeithio ar y Cyngor ond roedd y rhan fwyaf o'r effeithiau wedi'u cwmpasu ac felly mae'n ddigon posibl ei bod yn bryd tynnu Brexit oddi ar y Gofrestr Risg a oedd yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei argymell i'r Cabinet.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) am eglurhad ynghylch effeithiolrwydd mecanwaith sgorio rheolyddion. Gwnaeth Mr Ireland sylw ar y risg Brexit, a dwedodd ei fod yn cytuno y byddai'r mwyafrif o faterion yn cael eu cwmpasu mewn mannau eraill yn ôl pob tebyg. Cyfeiriodd Mr Ireland hefyd at Brosiect Sero a'r sgôr risg gyfredol a gofynnodd ar ba bwynt y byddai adolygiad yn dod i'r casgliad nad oedd modd cyflawni amcanion Prosiect Sero. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, o ran effeithiolrwydd sgôr rheolyddion, ei fod yn gyfrifiad tybiannol a wnaed trwy edrych ar allu'r rheolaethau i ddylanwadu ar yr effaith a'r sgoriau tebygolrwydd. O ran risg Prosiect Sero, dwedodd y Cyfarwyddwr y byddai hynny’n cael ei ddylanwadu gan ddychweliad data'r Cyngor i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru dros yr ychydig fisoedd nesaf ac fel rhan o'r dadansoddiad hwnnw, byddai Llywodraeth Cymru yn gallu deall graddfa rhai o'r heriau sy'n cael eu hwynebu a’r heriau cenedlaethol. Felly, byddai'r Cyngor yn gallu deall yn well y meysydd gweithgarwch yr oedd angen iddo edrych arnynt, fel mai dyna fyddai'r prif sbardun nesaf ar gyfer adolygiad o'r raddfa risg gyffredinol.

Dwedodd Mr M. Evans, (Aelod Lleyg) ei fod yn cefnogi tynnu Brexit o'r Gofrestr Risg ac fe holodd a oedd y Cyngor wedi bod yn agored i'r problemau diogelwch "MOVEit" diweddar. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n gwirio gyda'i gydweithwyr o fewn diogelwch gwybodaeth ac y byddai'n darparu ateb i'r Aelodau drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at sylwadau yn ymwneud â Phrosiect Sero a dwedodd na ddylai'r Cyngor osgoi dosbarthu'r statws fel trychinebus gan fod angen adlewyrchu'r sefyllfa go iawn. I gefnogi'r Cynghorydd Hooper, dwedodd y Cynghorydd J. Protheroe fod y darlun o amgylch Prosiect Sero ar gyfer pob sefydliad sector cyhoeddus yn heriol, yn enwedig o ran lleihau allyriadau carbon ac mai gaddfa risg  trychinebus oedd yr hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n hapus i roi adborth yn uniongyrchol i'r Bwrdd Prosiect.

Dwedodd Mr. G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) na fyddai statws trychinebus ar gyfer Sero'r Prosiect yn dangos arwydd o wendid ac roedd yn bwysig i'r Cyngor adlewyrchu'r materion dan sylw. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar fregusrwydd ariannol a chyfeiriodd at ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch gofal cymdeithasol a phlant sy'n derbyn gofal a'r effaith ar ddarparwyr lleoliadau gofal preswyl sector preifat ac y dylai fod yn rhywbeth y dylid ei amlygu yn y Gofrestr. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n rhoi adborth ar faterion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd yn ymwybodol bod y materion yn cael eu hystyried a'u datblygu gyda'r Rhaglen Trawsnewid o fewn Gofal Cymdeithasol dan arweiniad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd ffrwd waith hefyd yn cael ei hystyried o amgylch cynllunio capasiti ac roedd cynlluniau ar waith i ddatblygu darpariaeth o fewn y sector gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ond gellid darparu diweddariad pellach ar hyn ar ddiweddariad nesaf y Gofrestr Risg.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) NODI sefyllfa Chwarter 4 o risgiau corfforaethol (Ebrill 2022 – Mawrth 2023) fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A) i'r adroddiad.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4, a dyma sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried dileu Brexit o'r Gofrestr Risg o ystyried bod y rhan fwyaf o'r effeithiau'n cael eu hymgorffori o dan themâu a Risgiau eraill.
- Dylai'r Cabinet a'r Bwrdd Prosiect Sero ystyried a ddylid priodoli statws effaith risg trychinebus i Project Zero, o ystyried difrifoldeb cwrdd â heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu. Ni ddylai'r Cyngor ychwaith osgoi priodoli statws trychinebus.
- Bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r effaith ar gapasiti lleoliadau gofal preswyl i Blant sy'n Derbyn Gofal a deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â darparwyr yn y sector preifat a bregusrwydd y farchnad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

222 DATGANIAD O GYFRIFON HEB EU HARCHWILIO 2022/23 (PC/WA151) –

Roedd Datganiad Cyfrifon Drafft Bro Morgannwg 2022/23 yn y broses o gael ei gwblhau ac roedd ar gael cyn cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Datganiad Cyfrifon y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol bellach wedi'u cwblhau ac wedi eu hatodi i'r adroddiad.

Roedd archwiliadau o Gyfrifon 2022/23 Cyngor Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Chyfrifon Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Caerdydd, y Fro a'r Cymoedd bellach wedi dechrau.

Oherwydd effaith y Pandemig Covid 19 parhaus, sicrhau adnoddau a rhoi Oracle Fusion ar waith, cwblhaodd y Cyngor y cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin, 2023 yn hytrach na'r dyddiad terfyn o 31 Mai, 2023, a hysbysebwyd hyn ar wefan y Cyngor yn unol â'r rheoliadau.

Byddai Datganiad Cyfrifon Bro Morgannwg 2022/23 yn destun archwiliad allanol a byddai'r cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith i'r archwiliad gael ei orffen ynghyd ag adroddiad ISA260 yr archwilwyr allanol cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

Byddai’n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol cyn 30 Tachwedd, 2023.

Holodd y Cynghorydd Hooper a oedd y dulliau presennol o weithio hybrid / gweithio gartref wedi rhwystro'r broses o ran cwblhau'r Datganiad Cyfrifon. Mewn ymateb, dwedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod darlun cymysg gyda swyddogion ar y safle yn fwy eleni nag o'r blaen ac roedd yn ddefnyddiol i'r tîm fod yn yr un ystafell yn ystyried materion. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen dull cymysg, yn enwedig o ran denu staff newydd a fyddai'n disgwyl lefel o hyblygrwydd o fewn y rôl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y cyfrifon ar gyfer Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd a chymhlethdod y cyfrifon hynny a dwedodd er mwyn tryloywder fod angen i'r cyhoedd ddeall yn llawn y cymhlethdod y cyfeirid ato. Mewn ymateb, dwedodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd hi wedi gweld y cyfrifon ar gyfer Rhanbarth y Fargen Ddinesig, ond ei dealltwriaeth hi oedd bod materion cymhlethdod yn ymwneud â buddsoddiadau. Nid oedd yn gallu gwneud sylw llawn ond byddai'n gallu rhannu'r cyfrifon ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Roedd consensws ymhlith y Pwyllgor y byddai o fudd i gyfrifon y Fargen Ddinesig gael eu rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a byddai'r cais hwn yn cael ei drafod gyda Chyngor Caerdydd a oedd yn rheoli'r cyfrifon.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bro Morgannwg heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 a chyfeirio sylwadau’r Pwyllgor at y Pennaeth Cyllid fel Swyddog Adran 151 i’w trafod wedi hynny gydag archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru.

(2) NODI Datganiad o Gyfrifon y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 a Datganiad Llywodraethu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir heb ei archwilio.

(3) BOD Datganiad o Gyfrifon Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 yn cael ei nodi.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Caniatáu ar gyfer adolygiad cychwynnol o Gyfrifon Datganiad Cyngor Bro Morgannwg nas archwiliwyd gan y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu.

(2&3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

223 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23 (PC/WA151) –

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethiant corfforaethol, gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth a llywodraethiant mewnol ac mae'n rhaid cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yn deillio o hynny yn y Datganiad Cyfrifon.

Darparodd y DLlB felly asesiad o drefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor a nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau.

Daeth y DLlB i'r casgliad, o'r adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed, y gellid rhoi sicrwydd rhesymol bod llywodraethiant Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael ei ystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethiant.

Byddai'r DLlB yn cael ei adolygu fel rhan o'r archwiliad allanol ar y Datganiad Cyfrifon a dylai adlewyrchu unrhyw faterion llywodraethiant hyd at y dyddiad y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymeradwyo y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/2023.

Dwedodd y Cynghorydd Hooper fod angen i'r Cyngor sicrhau bod y ddogfen yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Mewn ymateb, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai dogfen fwy hawdd ei defnyddio yn cael ei chynhyrchu yn dilyn cymeradwyaeth, a byddai'n cadarnhau gyda'r Tîm Cyfathrebu ynghylch hyrwyddo ac a oedd y ddogfen mor hygyrch ag y gallai fod. Ymhellach i'r pwynt hwn, awgrymodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 y gallai fod yn bosibl ychwanegu Crynodeb Gweithredol at y DLlB a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach. Cytunodd y Pwyllgor gydag awgrym o Grynodeb Gweithredol, a nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried DLlB diwygiedig pan fyddai'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig yn cael ei gyflwyno ym mis Medi.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) am ymgorffori mwy o wybodaeth ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a pha mor llwyddiannus y bu yn dilyn cyflwyno system E-Ddeiseb. Gofynnodd Mr Ireland hefyd am ragor o fanylion o ran y strategaeth rheoli risg a rôl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

Holodd y Cynghorydd E. Goodjohn am y naratif o amgylch polisi cwynion y Cyngor. Mewn ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad gweithdy i ystyried adroddiad Cwynion Corfforaethol y Cyngor, felly byddai cyfle i drafod ymhellach.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – Y DYLID cytuno mewn egwyddor ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/2023 yn amodol ar ddiwygio'r ddogfen yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd am ei hymgorffori er mwyn iddi gael ei hargymell i'w mabwysiadu gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

224 DIWEDDARIAD AR BROSIECT CYFALAF YSGOL STANWELL (PGAMR) –

Trafodwyd canfyddiadau adroddiad archwilio Ysgol Stanwell yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin, 2023 fel rhan o Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23.

O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor fod angen gwaith pellach, manylach o ran y prosiect cyfalaf fel mater o frys.

Ymwelodd yr Archwilwyr â'r ysgol a siarad â phersonél perthnasol yn yr ysgol ynglŷn â'r prosiect ar 19 Mehefin 2023. Cafwyd dogfennaeth ychwanegol hefyd ar y safle a thrwy e-bost ers y dyddiad hwnnw.

Roedd adroddiad yn cael ei lunio ond cafwyd diweddariad llafar yn y cyfarfod ar y canfyddiadau hyd yma.

Dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr archwiliad yn parhau, a bod y tîm archwilio wedi cyfarfod ag Uwch Dîm Arwain yr ysgol a Chorff Llywodraethu yr ysgol a oedd wedi cael gwybod am adroddiad archwilio'r Cyngor. O ran y sefyllfa bresennol, nid oedd llawer wedi newid ers y cyfarfod diwethaf ac roedd y tîm archwilio yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r ysgol o ran cwblhau'r gwaith archwilio.

Nododd y Pwyllgor fod y gwaith archwilio wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau erbyn mis Medi fel y byddai adroddiad diweddaru pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – NODI'r diweddariad a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

225 ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2022/23 (PGAMR) –

Un o swyddogaethau craidd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol oedd ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a threfniadau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig.

Roedd yr Adroddiad Twyll Blynyddol yn Atodiad A yr adroddiad yn crynhoi sut y llwyddodd y Cyngor i reoli risg twyll yn ystod 2022/23 gyda'r nod o atal, canfod, ac ymchwilio ac adrodd ar dwyll yn dilyn hynny.

Roedd Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021 i 2024 yn sail i ymrwymiad y Cyngor i atal pob math o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, p'un a yw'n ymgais allanol neu o'r tu mewn. Roedd y Fframwaith yn cynnwys gwaith adweithiol a rhagweithiol; y gwaith rhagweithiol yn cael ei gyflwyno mewn cynllun gweithredu. Roedd y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru a dangoswyd y sefyllfa bresennol yn yr adroddiad.

Cymerodd y Cyngor ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG). Roedd hwn yn ymarfer bob dwy flynedd a gydlynwyd yng Nghymru gan Swyddfa Archwilio Cymru. Manylwyd ar ganlyniadau'r ymarfer paru data a gynhaliwyd yn 2022/23 yn yr Adroddiad Blynyddol. Nodwyd cyfanswm o 77 achos posib o dwyll neu wallau yn cyfateb i £149,839 o arian y gellid ei adennill. Yn ogystal, nododd yr ymarfer paru disgownt person sengl £112,515 o ariany gellid ei adennill.

Gallai gwaith twyll adweithiol gael ei sbarduno gan bryder a godir drwy fenter ‘Codi Llais’ neu gan unrhyw Swyddog neu Reolwr yn uniongyrchol i Archwilio Mewnol neu'r Swyddog Ymchwiliadau. Cynhwyswyd crynodeb o'r gwaith twyll adweithiol a wnaed yn ystod 2022/23 yn yr Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod 2022/23 cytunodd y Cyngor i gydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau os nodwyd achos addas. Yn ogystal, roedd y Swyddog Twyll Corfforaethol yn gweithio'n agos gyda thimau Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor gyda'r bwriad o gynnal ymchwiliadau lle nodwyd twyll posibl o ran budd-daliadau’r Cyngor. I ategu hyn roedd Polisi Gorfodi ac Erlyn yn cael ei ddatblygu.

Cyfeiriodd Mr. N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) at gamau 2, 4 ac 13 o fewn Atodiad 1 yn nodi bod y dyddiadau cwblhau wedi'u hymestyn, ond at ddibenion tryloywder dylid cynnwys rheswm dros yr estyniad hefyd.

Dwedodd y Cynghorydd E. Goodjohn y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cynnwys cymhariaeth â gwybodaeth y llynedd. Holodd y Cynghorydd Goodjohn dhefyd ynghylch datganiad ynghylch credydwr ac a oedd y mater hwnnw wedi'i ddatrys. Mewn ymateb, dwedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y mater yn ymwneud â thaliadau dyblyg a bod y tîm archwilio wedi gweithio gydag adran y Cyngor ac y gallai gadarnhau ei fod yn ddyblygiad a oedd o ganlyniad i wall dynol.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, y mesurau sydd mewn lle a'r gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a chamgymeriadau.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

226 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynid Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Atodwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/34 wedi ei diweddaru i Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dwedodd y Cadeirydd fod y dylai rhestr yr eitemau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi hefyd gynnwys diweddariad ar Ysgol Stanwell.

Gofynnodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) ynghylch cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mewn ymateb, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod adroddiad wedi'i ddrafftio ond bod angen i Aelodau'r Pwyllgor fwrw golwg drosto cyn ei gyhoeddi. Felly, roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei symud yn ôl i fis Medi.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar gynnwys adroddiad diweddaru ynghylch Ysgol Stanwell ar gyfer y cyfarfod nesaf, 18 Medi, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.